# Beth y gall gofal sylfaenol ei wneud i atal twf anghydraddoldebau yng Nghymru?



Dr. Kerry Bailey, Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus

Fatima Sayed, Prif Ymarferydd Iechyd Cyhoeddus

Hydref 2024

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Cyflwyniad


- Ble mae'r Ddeddf Gofal Gwrthgyfartal yng nghyd-destun anghydraddoldebau ehangach?
- Beth yw'r sefyllfa o ran anghydraddoldebau yng Nghymru?
- Beth yw rôl gofal sylfaenol o ran mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd?
- Trosolwg o'n gwaith yn yr Is-adran Gofal Sylfaenol


# Ble mae'r Ddeddf Gofal Gwrthgyfartal yng nghyd-destun anghydraddoldebau ehangach?

## Julian Tudor Hart: yr ymarferydd cyffredinol a chanddo weledigaeth, a gyflwynodd y cysyniad o'r "ddeddf gofal gwrthgyfartal"

*"Mae argaeledd gofal meddygol da yn dueddol o amrywio yn wrthgyfartal â'r angen amdano yn y boblogaeth a wasanaethir"*






*"nid gwasanaethau meddygol yw prif benderfynnydd marwolaeth neu afiachedd; mae'r rhain yn dibynnu'n bennaf ar safonau maeth, tai, amgylchedd gwaith, ac addysg, a phresenoldeb neu absenoldeb rhyfel."*
Tudor Hart

**Ffynhonnell:** [Pennod 3: Health inequalities: Turning the Tide - Realistic Medicine - Doing the right thing: Adroddiad blynyddol y Prif Swyddog Meddygol 2022 to 2023 - gov.scot (www.gov.scot)]

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales



Glyncorrwg Colliery, 1953

# Blynyddoedd Glyncorrwg

- Roedd yn awyddus i gael darlun cyfannol o'i gleifion. Daeth Glyncorrwg i fod yn bractis ymchwil cyntaf y Cyngor Ymchwil Feddygol.
- Ef oedd yr ymarferydd cyffredinol cyntaf yn y DU i fesur pwysedd gwaed fel mater o drefn – mesur pwysau gwaed pawb.
- Roedd yn deall ei gymuned.
- Roedd cydweithredu lleol yn hanfodol – gweithio gyda chleifion (ffurfiodd bwyllgor iechyd – trafododd faterion iechyd cyhoeddus fel smygu)
- Talodd y strategaeth iechyd ataliol a meddwl am y darlun cyfan ar ei chanfed (Cyfradd marwolaethau - 30% yn is na Blaengynfi)

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales




HYSBYSU



EIRIOLI



ANNOG

CYFLAWNI



# Beth yw'r sefyllfa o ran anghydraddoldebau yng Nghymru?
## Disgwyliad oes a disgwyliad oes iach

### Disgwyliad oes

Yng Nghymru, mae dynion sy'n byw yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yn marw 9 mlynedd yn iau ar gyfartaledd na dynion sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf cefnog.


### Disgwyliad oes iach

Mae menywod yng Nghymru sydd wedi'u geni yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yn byw 18.3 mlynedd o'u bywyd mewn iechyd gwael.

**Ffynhonnell: SYG** Health state life expectancies by national deprivation deciles, Wales – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

# Baich clefydau mewn ardaloedd o amddifadedd

Amrywiad yng Nghyffredinrwydd cyflyrau hirdymor rhwng yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is â'r amddifadedd mwyaf a lleiaf (StatsCymru, 2019)




Amrywiad mewn Digwyddedd Canser a marw cyn pryd rhwng Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is â'r amddifadedd mwyaf a lleiaf (StatsCymru, 2019)




# Y galw ar wasanaethau mewn ardaloedd o amddifadedd

## Apwyntiadau meddygon teulu cyffredinol fesul 100,000 o boblogaeth (WLGP, 2019-20)



# Cyflenwad cyfyngedig mewn ardaloedd o amddifadedd

Y gymhareb gyfwerth ag amser llawn i boblogaeth practis o 10,000 fesul cwintel practis yn seiliedig ar gyfrif o'r boblogaeth sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf ar 31 Rhagfyr 2021



# Beth y gall gofal sylfaenol ei wneud?

## Ffocws ar benderfynydd cymdeithasol iechyd

- Asesu cleifion am ansefydlogrwydd o ran tai, diffyg diogeledd bwyd, diweithdra er mwyn eu cysylltu ag adnoddau a gwasanaethau cymunedol
- Presgripsiynu cymdeithasol
- Partneriaeth â sefydliadau cymunedol sy'n helpu i ddarparu dull cyfannol o fynd i'r afael ag anghenion nad ydynt yn rhai meddygol

## Mynediad teg i'ch gwasanaeth

- Ystyried mynediad mewn ardaloedd lle nad oes digon wasanaethau ar gael
- Gofal sy'n ddiwylliannol gymwys
- Gofal sy'n ystyriol o drawma
- Timau rhyngbroffesionol a rhyngddisgyblaethol




## Dulliau a gaiff eu llywio gan ddata

- Archwiliadau Tegwch Iechyd i gael gwybodaeth am ansawdd gofal a chanlyniadau ar draws demograffeg cleifion gwahanol
- Defnyddio eich data i roi eich cleifion mewn haenau yn ôl ethnigrwydd, incwm, daearyddiaeth, i ganfod bylchau o ran gwasanaethau iechyd ac anghenion na chant eu diwallu

## Mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar systemau

- Rydych yn rhan o system ehangach sydd wedi cysylltu â'i gilydd
- Mae angen ymyriadau aml-lefel arnoch drwy gydgysylltu a chydweithio ag eraill
- Canfod sut mae rhannau eraill o'r system, fel gwasanaethau cymdeithasol, sefydliadau cymunedol a grwpiau yn gallu helpu
- Ymgysylltu â chymunedau ac, os gallwch, cyd-gynllunio eich ymyriadau gyda nhw


# Trosolwg o'r gwaith a wneir yn yr Is-adran Gofal Sylfaenol

GIG CYMRU NHS WALES

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Anghydraddoldebau Iechyd yn y Rhaglen Gofal Sylfaenol

Darperir arweiniad o ran y system ac arbenigedd iechyd cyhoeddus i ymgorffori dull sy'n seiliedig ar anghydraddoldebau iechyd yn y System Gofal Sylfaenol yng Nghymru.




**Cydweithredu, Rhwydweithiau a Phartneriaethau**

- Grŵp Anghydraddoldebau Llywodraeth Cymru
- Grŵp Iechyd Cynhwysiant Strategol Cenedlaethol
- Rhwydwaith Cenedlaethol Nyrsys Iechyd Cynhwysiant
- Rhwydwaith Cenedlaethol a Lleol Arweinyddion Iechyd Cyhoeddus
- Ein Dull Gweithredu ar Anghydraddoldebau Iechyd (ICC)

## Hysbysu


- Ymchwil a Data
- Adnoddau ac offer sy'n berthnasol i anghydraddoldebau iechyd gan gynnwys canllawiau asesu tegwch ar gyfer clystyrau a gweithwyr proffesiynol eraill mewn gofal sylfaenol
- Tudalennau gwe
- Darparu cyfres o weithdai cynhwysiant iechyd ac anghydraddoldebau iechyd
- Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu safonau ar gyfer addysg broffesiynol (lefel gradd ac ôl-radd)


## Eirioli ac Annog

- Darparu arweiniad o ran y system i eirioli dros, a dylanwadu ar newidiadau polisi sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldebau iechyd
- Eirioli er mwyn gwella ansawdd data ar gyfer grwpiau iechyd cynhwysiant yn genedlaethol ac yn lleol
- Sefydlu rhwydweithiau lleol a chenedlaethol

## Cyflawni a Dysgu

- Datblygu Fframwaith Gweithredu Cydraddoldeb ar gyfer gofal sylfaenol
- Datblygu dulliau a safonau ar gyfer monitro a gwerthuso gwasanaethau iechyd cynhwysiant a fframwaith anghydraddoldebau iechyd












































- *Llawer o fframweithiau*
- *Seiliedig ar dystiolaeth*
- *Diffyg tystiolaeth o ran eu gweithredu ac effeithlonrwydd ymarferol*



Fframwaith GIG Cymru ar gyfer tegwch iechyd drwy ofal sylfaenol
Arweinyddiaeth a Diwylliant
Gweithlu
Gwasanaethau hygyrch, safonol ac integredig
Data, gwybodaeth a deallusrwydd
Buddsoddi ac ailddosbarthu cyllid
Galluogi cymunedol
Cydweithio

| | | |
|---|---|---|
| 01 | Arweinyddiaeth a Diwylliant | • Cryfhau arweinyddiaeth gydweithredol ac atebolrwydd drwy gydol y system gofal sylfaenol<br>• Gwreiddio ffocws ar anghydraddoldebau iechyd o ran meddylfryd a diwylliant sefydliadol a thimau |
| 02 | Gweithlu | • Buddsoddi amser ac adnoddau mewn cynllunio gweithlu cynaliadwy sy'n cefnogi amrywiaeth yng nghyfansoddiad y gweithlu<br>• Gwneud hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar degwch iechyd yn rhan annatod o hyfforddiant gradd ac ôl-radd |
| 03 | Gwasanaethau hygyrch, safonol ac integredig | • Ymgorffori gwasanaethau mewn lleoliadau a chymunedau diwylliannol penodol<br>• Normaleiddio gweithio integredig, cyd-hyfforddiant cyson, a datblygu gweledigaeth a gaiff ei rhannu |
| 04 | Data, Gwybodaeth a Deallusrwydd | • Ymrwymo i:<br>ddatblygu a chyhoeddi data o ansawdd uchel a gwybodaeth hygyrch ar anghydraddoldebau iechyd yn lleol ac yn genedlaethol<br>fuddsoddi mewn gweithlu datblygu data<br>ganfod modelau a dulliau sy'n gweithio i gymunedau nad ydynt yn cael digon o help neu wasanaethau drwy ymchwil a gwerthuso<br>• Canfod a datblygu modelau, peirianwaith a dulliau:<br>i ymgorffori mynediad digidol a sgiliau i ddadansoddi anghydraddoldebau<br>i safoni'r gwaith o ddadansoddi data anghydraddoldeb<br>sy'n gweithio i gymunedau nad ydynt yn cael digon o help neu wasanaethau drwy ymchwil a gwerthuso<br>ar gyfer cofnodi, asesu ac adrodd am anghenion gofal sylfaenol nad ydynt yn cael eu diwallu<br>• Rhannu arfer gorau er mwyn helpu gwasanaethau a sefydliadau o fewn y system gofal sylfaenol i ddod yn gyrff tegwch iechyd effeithiol |
| 05 | Buddsoddi a chyllid | • Buddsoddi amser ac ymrwymiad i adolygu cyllid a dosbarthu adnoddau<br>• Rhoi pwysau uwch i restrau cleifion ar gyfer practisau mewn ardaloedd o dan anfantais |
| 06 | Galluogi cymunedol | • Meithrin perthynas hirdymor rhwng timau gofal a chymuned, megis lleoli gwasanaethau ger tirmodau cymunedol, cynnig opsiynau cludiant, cynnal ymweliadau cartref wedi'u targedu a chyd-gynllunio gwasanaethau gyda chymunedau a phartneriaid |
| 07 | Cydweithio | • Defnyddio dull ABCD i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar y gymuned drwy weithio gydag awdurdodau lleol, y sector gwirfoddol, grwpiau cymunedol a phartneriaid mentrau cymdeithasol |


# Adnoddau




[https://gofalsylfaenolun.gig.cymru/files/rhaglen-cynhwysiad-iechyd-cymru-pdf/](https://gofalsylfaenolun.gig.cymru/files/rhaglen-cynhwysiad-iechyd-cymru-pdf/)





[https://gofalsylfaenolun.gig.cymru/pynciau/rhannu-ymarfer/gwasanaeth-cynhwysiant-iechyd-caerdydd-astudiaeth-achos-pdf/](https://gofalsylfaenolun.gig.cymru/pynciau/rhannu-ymarfer/gwasanaeth-cynhwysiant-iechyd-caerdydd-astudiaeth-achos-pdf/)




[Cyfeiriadur Addysg a Hyfforddiant ar gyfer Gweithwyr Iechyd Proffesiynol - Gofal Sylfaenol Un (gig.cymru)]()




[Lleihau Anghydraddoldebau Iechyd drwy Ofal Sylfaenol - Gofal Sylfaenol Un (gig.cymru)]()





[Cynllunio Cymorth ac Adnoddau - Gofal Sylfaenol Un (gig.cymru))]()

# Sut y gallwn ni wneud gwahaniaeth?

## Ymgorffori tegwch a chydraddoldeb

- HYSBYSU
- EIRIOLI
- ANNOG
- CYFLAWNI



## Gadewch i ni wybod sut y gallwn ni fod o gymorth?

Inequalities Team:

- Consultant lead - Dr. Kerry Bailey
  Kerry.Bailey2@wales.nhs.uk
- Principal Public Health Practitioner – Fatima Sayed
  Fatima.sayed2@wales.nhs.uk
- Senior Public Health Practitioner
  Victoria.Tice@wales.nhs.uk



*if these hours be dark,*
*as indeed in many ways they are,*
*at least do not let us sit deedless,*
*like fools and fine gentlemen,*
*thinking the common toil not good enough for us,*
*and beaten by the muddle;*
*but rather let us work like good fellows trying by some dim candle-*
*to set our workshop ready against tomorrow's daylight...*
*William Morris*

# Diolch / Thank you

Lleihau Anghydraddoldebau Iechyd drwy Ofal Sylfaenol - Gofal Sylfaenol Un (gig.cymru)

Reducing Health Inequalities through Primary Care - Primary Care One (nhs.wales)